**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Rhwydweithiau Gwresogi) (Cymru) 2024**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Polisi a Diwygio Ardrethi Annomestig ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Rhwydweithiau Gwresogi) (Cymru) 2024. Rwyf yn fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Rebecca Evans AS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**17 Ionawr 2024**

## RHAN 1: MEMORANDWM ESBONIADOL

### Disgrifiad

1. Mae paragraff 6 o Atodlen 4ZA i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988") yn cynnwys darpariaeth ar gyfer rhyddhad rhwydweithiau gwresogi rhag atebolrwydd am ardrethi annomestig. Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Rhwydweithiau Gwresogi) (Cymru) 2024 ("y Rheoliadau") yn rhoi effaith i'r rhyddhad hwnnw drwy ddiffinio 'rhwydwaith gwresogi' a phennu amodau i'w bodloni wrth benderfynu ar gymhwystra ar gyfer y rhyddhad llawn hwn rhag atebolrwydd am ardrethi annomestig.

### Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

2. Dim.

### Y cefndir deddfwriaethol

3. Yn Neddf Ardrethu Annomestig 2023 ("Deddf 2023"), a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 26 Hydref 2023, gwnaed darpariaeth ar gyfer rhyddhad llawn newydd rhag atebolrwydd am ardrethi annomestig i rwydweithiau gwresogi cymwys.

4. Roedd adran 1 o Ddeddf 2023 yn mewnosod Atodlen 4ZA yn Neddf 1988, â'r adran yn cychwyn ar adeg y Cydsyniad Brenhinol a'i darpariaethau'n cael effaith mewn perthynas â blynyddoedd ariannol o 1 Ebrill 2024. Mae paragraff 6 o Atodlen 4ZA i Ddeddf 1988 yn darparu rhyddhad llawn rhag atebolrwydd am ardrethi annomestig pan ddefnyddir hereditament ar restr ardrethu leol yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion rhwydwaith gwresogi. Mae unrhyw amodau sydd i'w bodloni i fod yn gymwys i gael y rhyddhad, a'r diffiniad o rwydwaith gwresogi ("heat network"), i'w rhagnodi mewn rheoliadau a wneir gan yr awdurdod cenedlaethol priodol.

5. Rhoddir y pŵer i wneud y Rheoliadau i Weinidogion Cymru gan baragraff 6(1)(b) a (2) o Atodlen 4ZA i Ddeddf 1988. Mae paragraff 11(b) yn cadarnhau mai Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cenedlaethol priodol ("appropriate national authority") at ddibenion paragraff 6(1)(b) a (2).

6. Mae'r Rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol yn rhinwedd adran 143(3) o Ddeddf 1988.

### Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

7. Pwrpas y Rheoliadau yw rhagnodi'r amodau i rwydweithiau gwresogi carbon isel gael rhyddhad llawn rhag swm yr ardrethi annomestig. Bwriad y Rheoliadau yw cefnogi'r datblygiad a'r twf a ragwelir dros y degawd nesaf yn y sector gwres carbon isel, drwy helpu i leihau'r rhwystrau ariannol i sefydlu rhwydweithiau gwresogi. Bwriad hyn yw helpu i gefnogi'r broses o drawsnewid, gan symud oddi wrth ddefnyddio tanwyddau ffosil, ac o

ddatgarboneiddio gwres ac mae'n cyd-fynd â'r Strategaeth Wres arfaethedig i Gymru.

8. Mae'r Rheoliadau yn diffinio rhwydwaith gwresogi fel cyfleuster sy'n cyflenwi ynni thermol o ffynhonnell ganolog i leoliadau eraill, at ddibenion gwresogi gofod, oeri gofod neu wresogi dŵr poeth domestig.

9. Bydd y rhyddhad yn gymwys os yw'n ymddangos i'r awdurdod bilio y bydd yr ynni thermol a gyflenwir gan y rhwydwaith gwresogi, am y 12 mis ar ôl y diwrnod dan sylw y codir swm ynglŷn ag ef (fel y'i diffinnir yn adran 43(3) o Ddeddf 1988), yn cael ei gynhyrchu o ffynhonnell carbon isel. Diffinnir ffynhonnell carbon isel yn y Rheoliadau fel ffynhonnell y mae o leiaf:
   a. 75% o'r ynni yn wres a gydgynhyrchir (cynhyrchu ynni thermol ar yr un pryd ag ynni trydanol neu fecanyddol, mewn un broses),
   b. 50% o'r ynni yn wres adnewyddadwy (ynni thermol a gynhyrchir gan beiriannau a pheirianwaith ynni adnewyddadwy a eithrir, fel y'u diffinnir ym mharagraff (d) yn Nosbarth 1 o'r Atodlen i Reoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Peiriannau a Pheirianwaith) (Cymru) 2000),
   c. 50% o'r ynni yn wres gwastraff (ynni thermol a gynhyrchir yn anochel fel sgil-gynnyrch proses arall ac na fyddai unrhyw ddefnydd iddo heblaw at ddibenion rhwydwaith gwresogi), neu
   d. 75% o'r ynni yn gyfuniad o'r ffynonellau uchod.

10. Mae'r diffiniad hwn yn seiliedig i raddau helaeth ar yr hyn sy'n cael ei gydnabod a'i ddeall yn eang yn y sector rhwydweithiau gwresogi, a'i ddefnyddio at ddibenion eraill (fel y Prosiect Buddsoddi mewn Rhwydweithiau Gwresogi). Cyfrifoldeb awdurdodau bilio fydd penderfynu ar gymhwystra i gael rhyddhad yn rhan o'u rôl wrth weinyddu ardrethi annomestig. Rhagwelir y bydd awdurdodau bilio yn ei gwneud yn ofynnol i dalwyr ardrethi gwblhau datganiad yn cadarnhau bod eu rhwydwaith gwresogi yn cyflenwi ynni thermol sy'n bodloni'r amodau ar gyfer rhyddhad.

## Ymgynghori

11. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar becyn o fesurau i ddarparu cymorth ardrethi ar gyfer ynni adnewyddadwy gan gynnwys y rhyddhad arfaethedig. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 23 Mai a 15 Awst 2023 a chafwyd 33 o ymatebion gan amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys busnesau unigol, aelodau o'r cyhoedd a allai hefyd fod yn dalwyr ardrethi, cyrff cynrychiadol ar gyfer sectorau o'r sylfaen drethu, cynrychiolwyr proffesiynol ym maes ardrethu neu drethu, a llywodraeth leol. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r cynigion. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar 16 Hydref 2023. Mae'r dogfennau ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael yn: https://www.llyw.cymru/cymorth-trethi-ynni-adnewyddadwy

## RHAN 2: ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### Yr opsiynau

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn cyflwyno dau opsiwn mewn perthynas â rhyddhad rhwydweithiau gwresogi. Mae'r opsiynau a ystyriwyd fel a ganlyn.

- ***Opsiwn 1 – Gwneud dim***. Cadw'r trefniadau presennol a pheidio â darparu rhyddhad rhwydweithiau gwresogi.
- ***Opsiwn 2 – Gwneud y Rheoliadau***. Deddfu i gymell twf yn y sector rhwydweithiau gwresogi carbon isel trwy ddarparu rhyddhad.

### Costau a manteision

#### *Opsiwn 1 – Gwneud dim*

Ni fyddai Opsiwn 1 yn gofyn am unrhyw newid deddfwriaethol. Ni fyddai unrhyw ryddhad yn cael ei ddarparu ar gyfer rhwydweithiau gwresogi. Ni fyddai unrhyw gostau gweinyddol ar gyfer awdurdodau bilio.

Byddai talwyr ardrethi yng Nghymru dan anfantais o'u cymharu â thalwyr ardrethi yn Lloegr, lle bydd rhyddhad yn cael ei ddarparu ar gyfer rhwydweithiau gwresogi. Byddai perygl i fuddsoddiad yn y sector, a fyddai wedi digwydd yng Nghymru fel arall, naill ai beidio â digwydd mwyach neu ddigwydd yn Lloegr yn lle hynny. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cefnogi nod polisi Llywodraeth Cymru o gefnogi talwyr ardrethi sy'n buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy ac ni fyddai'n cyfrannu tuag at nodau'r Strategaeth Wres i Gymru.

#### *Opsiwn 2 – Gwneud y Rheoliadau*

Opsiwn 2 fyddai gwneud y Rheoliadau i roi rhyddhad rhwydweithiau gwresogi ar waith a chefnogi twf a buddsoddiad mewn gwres carbon isel. Byddai talwyr ardrethi cymwys yn elwa o ryddhad llawn rhag eu hatebolrwydd ardrethu annomestig.

Byddai'r opsiwn hwn yn rhoi'r un cymhelliant i dalwyr ardrethi yng Nghymru ag i'r rhai yn Lloegr, mewn perthynas â defnyddio rhwydweithiau gwresogi carbon isel. Bydd hyn yn helpu i gefnogi uchelgeisiau ehangach o ran ynni adnewyddadwy a'r cynnydd tuag at sero net.

Bydd rhai awdurdodau bilio yn wynebu costau gweinyddol bach yn gysylltiedig â newidiadau i feddalwedd a diweddaru systemau bilio o ganlyniad i weithredu rhyddhad rhwydweithiau gwresogi. Oherwydd y nifer fach o dalwyr ardrethi a fyddai'n elwa o'r rhyddhad, bydd y costau hyn yn fach iawn. Mae'r rhyddhad wedi ei gynllunio i weithredu ar yr un sail ledled Cymru a Lloegr, a fyddai'n lleihau effeithiau hyn ymhellach.

Amcangyfrifir bod gostyngiad blynyddol o £100,000 mewn refeniw a delir i'r gronfa ardrethi annomestig yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Mae hon yn gyfran fach iawn o'r £1.1 biliwn o refeniw net a godir yn flynyddol gan ardrethi annomestig.

**Dewis opsiwn**

Ystyrir bod manteision Opsiwn 2 yn gorbwyso'r costau cysylltiedig, yn ogystal â manteision Opsiwn 1. Opsiwn 2, felly, yw'r opsiwn a ffefrir gan Lywodraeth Cymru.

**Dyletswyddau**

***Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015***. Mae rhoi cymhelliant i ddefnyddio gwres carbon isel drwy ryddhad rhwydweithiau gwresogi yn cyfrannu at nodau llesiant Cymru lewyrchus, Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, a Chymru gydnerth.

***Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn***. Ni nodwyd unrhyw effaith benodol ar hawliau plant.

***Y Gymraeg***. Ni nodwyd unrhyw effaith ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg nac o ran trin yr iaith yn gyfartal.

***Cydraddoldeb***. Ni nodwyd effeithiau penodol, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, ar bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig (fel y'i pennir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010).

***Y sector gwirfoddol***. Ni nodwyd unrhyw effeithiau penodol ar y sector gwirfoddol.

***Cyfiawnder***. Ni nodwyd unrhyw effeithiau penodol ar y system gyfiawnder.

**Asesu'r gystadleuaeth**

Mae prawf hidlo cystadleuaeth wedi ei gynnal ar y Rheoliadau a bernir bod y risg o effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth yn isel.

**Adolygu ar ôl gweithredu**

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau bilio i fonitro cymhwystra ar gyfer y rhyddhad.